# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL, 11.06.15

**6. STRATEGAETH FFORDD GWYNEDD**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Peredur Jenkins**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Adnoddau yn gwahodd sylwadau'r pwyllgor ar y fersiwn ddiweddaraf o'r Strategaeth ddrafft cyn cyflwyno'r drafft terfynol i'r Cabinet i'w fabwysiadu'n ffurfiol.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun a rhoddwyd cyflwyniad gan y Prif Weithredwr yn cyfarch nifer o gwestiynau a godwyd yn y Cyfarfod Paratoi ar 23 Ebrill mewn perthynas ag:-

- Ystyr Ffordd Gwynedd
- Digonolrwydd yr adnoddau mewn lle a'r capasiti i wireddu gweledigaeth Strategaeth Ffordd Gwynedd a'i roi ar waith.
- Y tebygolrwydd y bydd Ffordd Gwynedd yn llwyddo.
- Tystiolaeth bod Ffordd Gwynedd wedi llwyddo i wella gwasanaethau i drigolion a sicrhau arbedion ariannol yn y ddau gynllun peilot ym meysydd digartrefedd ac eiddo.
- Dulliau o sicrhau ymrwymiad a dealltwriaeth ar draws y Cyngor i wireddu Ffordd Gwynedd.
- Y mesurau perfformiad sy'n bosib' eu rhoi mewn lle er mwyn sicrhau'r newid diwylliant o fewn y Cyngor.
- Yr ymgysylltu ffurfiol / anffurfiol gyda budd-ddeiliaid.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau pellach a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, ymatebodd yr Aelod Cabinet a'r Prif Weithredwr i gwestiynau / sylwadau ynglŷn â:-

- Sut mae'r Strategaeth yn cyd-blethu gyda'r cysyniad o Reoli Galw a'r Strategaeth Arbedion?
- Y dull o raeadru Ffordd Gwynedd i lawr ac ar draws y sefydliad.
- Sut mae Ffordd Gwynedd yn ymateb i ddeddfwriaeth gwlad a gofynion Llywodraeth Cymru ac amrywiol gyrff allanol ac ydi'r Cyngor hwn yn ddigon dewr i gymryd y cerydd er mwyn cadw trigolion Gwynedd yn hapus?
- Y sialens o gael pobl i ymddwyn yn wahanol.
- Ymdeimlad bod y datganiad '*Rhoi Pobl Gwynedd yn Ganolog'* yn her sylweddol oherwydd bod yna leisiau cryfion o fewn pob ardal sydd â'u hagenda eu hunain.
- Y gwersi a ddysgwyd o'r cynlluniau peilot.

Mynegwyd dymuniad y pwyllgor i weld Strategaeth Ffordd Gwynedd yn llwyddo a chasglwyd mai un o'r pwyntiau pwysicaf yn codi o'r drafodaeth oedd y cwestiwn o risg a'r angen i arfogi'r holl staff, o'r brig i lawr, i ddefnyddio eu synnwyr cyffredin ac i fod â'r hyder i gymryd risgiau bach, sydd efallai, yn mynd i ddod â gwobrwyon mawr.

Mynegwyd pryder mai ond hanner aelodau'r pwyllgor oedd yn bresennol i gymryd rhan yn y drafodaeth hon. 'Roedd y staff wedi ymroddi i'r newidiadau hyn, ac 'roedd hynod bwysig eu bod hwy a'r Tîm Arweinyddiaeth yn cael y gefnogaeth briodol gan yr aelodau hefyd.

DRAFFT